Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Dir Hamdden y Rhath

Pecyn Ymgynghori

CARDIFF
CAERDYDD



# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Dir Hamdden y Rhath

### Pecyn Ymgynghori

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar welliannau yn y cae chwarae ar Dir Hamdden y Rhath ac ar Heol Ninian i wella hygyrchedd i feiciau a cherddwyr yn yr ardal.

Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn rhan o lwybr ehangach a gaiff ei ddatblygu yn y dyfodol o Ganol y Ddinas i ardal Parc y Rhath a thu hwnt.

Mae cynlluniau ar gyfer cae chwarae Tir Hamdden y Rhath wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

Mae'r cynlluniau hyn ar ffurf dyluniadau syml yn dangos yr aliniadau a'r cynigion cyfredol.

Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i fireinio'r llwybr a'r cynigion i fwrw ymlaen â dyluniad manwl.




Mae gwybodaeth ar Sut i Ymateb ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon, ynghyd â Chwestiynau Cyffredin.



Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Dir Hamdden y Rhath

## Pecyn Ymgynghori

### Cysylltiadau Newydd

Mae'r llwybr dan sylw yn rhan o gynllun ehangach sy'n anelu at gysylltu cymunedau â chyrchfannau mawr ledled y ddinas, gan gynnwys Canol y Ddinas, Bae Caerdydd, yn ogystal ag o ffiniau'r Sir i'r dwyrain a'r gorllewin, gan sicrhau bod modd teithio'n llesol ac yn ddiogel i safleoedd cyflogaeth, ardaloedd preswyl, canolfannau addysg a chyrchfannau ymwelwyr yn y Ddinas.

Yn lleol, mae'r llwybr yn cysylltu â'r Llwybr Beicio ar Heol Wellfield ac mae hefyd yn bwriadu cysylltu nifer o ysgolion a llwybrau poblogaidd ar gyfer teithiau i'r ysgol.

Bydd Beicffyrdd yn darparu llwybrau parhaus y gellir eu defnyddio'n gyfforddus ac yn reddfol, wedi'u gwahanu oddi wrth gerbydau modur a cherddwyr pan fo angen.

Bydd Llwybr Beicio Parc y Rhath yn darparu cysylltiad teithio llesol allweddol o Ganol y Ddinas i Barc y Rhath ac o bosibl y tu hwnt i Ogledd a Gogledd Ddwyrain Caerdydd, gan sicrhau bod modd teithio'n llesol i safleoedd cyflogaeth, parthau preswyl, canolfannau addysg a chyrchfannau ymwelwyr yn y Ddinas. Bydd cyfleoedd hefyd ar gael i gysylltu â llwybrau beicio eraill.



### Aer Glân

Mae gennym gynllun Aer Glân sy'n ceisio mynd i'r afael â lefelau NO2 yn y tymor byr, ond rydym eisiau glanhau'r aer a anadlwn yn y ddinas gymaint â phosibl. Mae gwella dewisiadau teithio cynaliadwy a chynyddu nifer y teithiau a wneir trwy deithio'n llesol (cerdded a beicio) yn rhan allweddol o'r cynllun hwn

**MAE 32% O DEITHIAU MEWN CAR YN LLAI NA 3KM ARE UNDER 3KM**

Ffynhonnell: Adroddiad Sylfaenol Ymchwil Ymddygiad Teithio Caerdydd

**YNG NGHAERDYDD MAE MANTEISION GWEITHGARWCH CORFFOROL BEICIO YN ATAL 13 O FARWOLAETHAU CYNNAR BOB BLWYDDYN SYDD Â GWERTH IDDO O £46 MILIWN**

Source: Bike Life, 2019

### Teithio Llesol ac Iechyd

Mae nifer y bobl sy'n beicio ac yn cymudo gyda thrên wedi cynyddu ac mae llai yn defnyddio car - ond nid yw'n ddigon. Mae gennym dargedau uchelgeisiol ar gyfer teithio llesol yn y ddinas. Bydd canran y teithiau a wneir trwy ddulliau llesol yn cynyddu'n sylweddol, gyda beicio yn parhau i ddod yn fwy a mwy poblogaidd. Mae'r llwybr beicio diogel ac ar wahân hwn yn cyfrannu at yr uchelgais teithio llesol hwn.

**87%** o'r ymatebion i'r Papur Gwyrdd yn cefnogi rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau beiciau cyfan gwbl ar wahan gyda phrif rwydwaith llwybrau beicio

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Dir Hamdden y Rhath

### Pecyn Ymgynghori


Bydd y gwelliannau yn Nhir Hamdden y Rhath a Heol Ninian yn rhoi cyfle i gysylltu â llwybrau beicio eraill yn y dyfodol, wrth ddarparu manteision allweddol megis hyrwyddo teithio cynaliadwy a llesol i ysgolion, cyflogaeth, cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus, gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn y maes chwarae a chyfleusterau lleol.



Mae'r llwybr yn cael ei ddatblygu fel rhan o broses arfarnu WelTAG ac mae'n debygol o gael ei chyflwyno fesul cam.

Bydd y gwelliannau arfaethedig o ran mynediad i gerddwyr beiciau yn rhan o uchelgais y Rhwydwaith Beicio Integredig.


Hoffem wybod eich barn mewn perthynas â cham Tir Hamdden y Rhath.



# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Dir Hamdden y Rhath

### Pecyn Ymgynghori




Cynigir creu trac beicio a llwybr troed yn y cae chwarae rhwng cyffordd Heol Wellfield ac Alder Road. Bydd goleuadau isel hefyd yn cael eu hystyried.

Bydd y llwybr troed yn cael ei ledu o amgylch y cae chwarae. Bydd offer y gampfa yn cael ei symud yn unol â hynny gyda mannau parcio beiciau yn cael eu hychwanegu pan fo'n briodol.




*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Dir Hamdden y Rhath


### Pecyn Ymgynghori




Ar Heol Ninian, bydd y groesfan sebra bresennol ger Pen y Wain Place hefyd yn cael ei huwchraddio i groesfan â man croesi cyfochrog i feiciau.  Bydd hyn yn gwella mynediad i Ysgol Gynradd Parc y Rhath.

Bydd gwelliannau i gyffordd Alder Road yn cynnwys symud ac uwchraddio'r groesfan sebra ddyrchafedig bresennol, ail-leoli / gwella safleoedd bysiau a chau pen gorllewinol Alder Road.

Bydd y safleoedd bysiau ar Heol Ninian rhwng Alder Road a Heol Wellfield yn cael eu hadolygu i benderfynu a ellir eu gwella. Gall hyn gynnwys gosod safleoedd bws â byrddau ymwthiol i sicrhau gwell mynediad a symud y safleoedd.





*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*


# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Dir Hamdden y Rhath

### Pecyn Ymgynghori

Mae gwelliannau o ran hygyrchedd hefyd yn cael eu cynnig ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Pen-y-lan i gysylltu gwelliannau Tir Hamdden y Rhath â llwybr beicio dros dro Heol Wellfield. Dangosir enghraifft gynnar o'r dyluniad isod (mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo).




Mae gwelliannau'n debygol o gynnwys gwell cyfleusterau croesi i gerddwyr, croesfan beiciau a throedffordd lydan. Bydd angen mynediad dwyffordd i'r Ganolfan Gymunedol hefyd ar Ffordd Pen-y-lan.

*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Roath Park Cycle Route

## Roath Recreation Ground improvements

## Dweud eich dweud

**A wnewch chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg: YMA**

Neu copïwch a gludwch yr URL canlynol: https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=164640370250

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Fel arall e-bostiwch projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk

neu ysgrifennwch at y Tîm Rhaglenni Trafnidiaeth, Ystafell Neuadd y Sir 301, Caerdydd, CF10 4UW

**Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 30/03/2022**

Caiff yr holl ymatebion eu hadolygu a'u defnyddio er mwyn helpu i ysgrifennu'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, sef un o'r dulliau a ddefnyddir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y cynllun. Gellir newid y cynllun enghreifftiol a ddangosir o ganlyniad i'r broses ddylunio fanwl, neu oherwydd adborth arall a gafwyd yn ystod y broses ymgysylltu neu ddylunio.

Bydd ymatebion i gwestiynau am y cynnig ar gael yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar-lein pan fydd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth, gan ddewis y ddolen 'ymgynghoriadau' a dewis teitl y cynllun. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, caiff y prosiect ei gynllunio'n fanwl a'i roi ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth ac arian.

**Sylwer mai dim ond adborth a chwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn a gaiff eu hystyried neu y gweithredir arnynt. Os oes gennych unrhyw adborth ar wasanaethau eraill y Cyngor, ewch i www.caerdydd.gov.uk**

**Ni allwn ymateb i ymatebion unigol chwaith – ond bydd yr holl ymatebion yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad a fydd ar gael yn fuan wedi dyddiad cau'r ymgynghoriad. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu.**

# Roath Park Cycle Route
## Roath Recreation Ground improvements
## Cwestiynau Cyffredin

**Beth ydych chi'n ymgynghori arno'n union?** Rydym am wybod eich barn am y cynigion presennol ar gyfer Tir Hamdden y Rhath ac ar hyd Heol Ninian.

**Pa welliannau fydd yn cael eu gwneud ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian?** Mae'r Cyngor yn ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud gwelliannau cyffredinol i'r gyffordd, yn enwedig i gerddwyr a beicwyr. Bydd y gwelliannau hyn yn integreiddio'r gyffordd â'r cynigion ar gyfer Heol Ninian a'r llwybr beicio dros dro presennol ar Heol Wellfield ac yn cynnwys newidiadau i faes parcio'r Ganolfan Gymunedol.

**A allaf barhau i gael mynediad i Alder Road?** Gallwch, ond i wneud y mynediad i'r trac beicio yn fwy diogel, bydd Alder Road yn cael ei chau wrth y gyffordd â Heol Ninian a bydd y groesfan sebra yn cael ei symud. Byddai cerbydau'n cael mynediad i Alder Road drwy Heol Tŷ Draw. Darperir man troi.

**Beth sy'n digwydd yng nghyffordd Alder Road / Tŷ-Draw Road?** Cynigir gosod arwyneb yn dynodi troedffordd barhaus. Mae hyn yn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr wrth y gyffordd.

**A fydd hyn yn golygu y bydd rhaid colli mannau parcio fel rhan o'r Gwelliannau i'r Cae Chwarae?** Ar hyn o bryd, mae'n annhebygol y bydd y cynnig hwn yn cyfrannu at golli unrhyw fannau parcio, ond bydd rhai mannau parcio'n cael eu symud. Mae mesurau rheoli parcio yn cael eu hystyried sy'n cyd-fynd â'r cynllun parcio cynhwysfawr ar gyfer y Ddinas gyfan. Mae mannau ar gyfer parcio beiciau a gorsafoedd llogi beiciau ychwanegol yn cael eu hystyried.

**Beth fydd yn digwydd i'r mannau parcio cerbydau yn yr ardal neu fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer y llwybr ehangach?** Mewn gwahanol ardaloedd yn y ddinas, mae'r Cyngor wedi bod yn cyflwyno newidiadau i rai ardaloedd ar sail parthol. Mae'r cynlluniau parcio hyn yn galluogi'r gwaith o sicrhau mwy o fannau parcio i breswylwyr a threfniadau parcio cyfyngedig a reolir i ostwng nifer y cymudwyr sy'n parcio gan wella cyfleoedd parcio i fusnesau a thrigolion. Nid oes unrhyw gynlluniau penodol yn rhan o'r ymgynghoriad penodol hwn, ond darperir cynlluniau yn y dyfodol i'w hystyried. Gellir cyflwyno rhai parthau fel rhan o'r beicffyrdd sy'n cael eu datblygu neu ar wahân i fynd i'r afael â materion lleol neu gynnwys parcio Talu ac Aros.

**A fydd yn rhaid i mi dalu am barcio?** O ran parthau parcio, cynigir cyflwyno cyfuniad o drwyddedau parcio i breswylwyr yn unig, aros cyfyngedig a thalu ac aros. Bydd cyfle i barcio am ddim, ond bydd hyn am gyfnod cyfyngedig. Mae mwy o wybodaeth am gynlluniau trwyddedau a thalu ac aros ar gael ar wefan y Cyngor.

# Roath Park Cycle Route
## Roath Recreation Ground improvements
### Cwestiynau Cyffredin

**Pam ydych chi'n cynnig mwy o gyfleusterau beicio?** Mae'n bwysig gwella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd cyn gynted â phosibl. I gefnogi hyn, mae'n bwysig annog teithio llesol a chynaliadwy ledled Caerdydd. Mae gwella beicffyrdd, safleoedd bws a llwybrau bws yn hanfodol i'r cynllun hwn. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ehangach y llwybr hwn yn y dyfodol.

**Pa gyfleusterau beicio sydd wedi'u cynllunio fel rhan o'r prosiect hwn?** Cynigir trac beicio dau gyfeiriad newydd ar wahân drwy'r cae chwarae a fydd yn gwella mynediad i'r parc ac yn cysylltu â llwybr beicio dros dro Heol Wellfield, yn ogystal â Heol Albany, yr ymgynghorwyd arno'n ddiweddar fel rhan o'r Llwybr Coch. Mae'r Llwybr Coch wedi'i ailenwi'n Llwybr Beicio Parc y Rhath. Bydd y llwybr yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol a gellid ychwanegu cysylltiadau eraill fel rhan o Rwydwaith Beicio Integredig Caerdydd; byddai angen ymgysylltu ymhellach â Chynghorwyr Lleol, Busnesau a Phreswylwyr ar y rhain.

**A fydd y cynllun yn effeithio ar goed?** Na, bydd y cynigion yn cael eu cynllunio i leihau'r effaith ar goed a'u gwreiddiau.

**Pam ydych chi'n lledu'r llwybrau troed yn y parc?** Mae cerbydau cynnal a chadw a gwastraff y Cyngor yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r parc, felly bydd llwybrau troed lletach yn lleihau'r difrod i'r glaswellt. Byddant hefyd yn cynnig gwell lle i gerddwyr a defnyddwyr y parc gael mynediad i'r parc a'i fwynhau ac mae llwybrau lletach yn rhoi lle i wahanol grwpiau defnyddwyr basio ei gilydd a lleihau gwrthdaro. Bydd y gwaith yn cael ei ariannu o gyfraniadau cyllid Adran 106.

**A allwch gael gwared ar y rhwystrau culhau ffordd?** Fel rhan o ddatblygiad y cynllun, efallai y byddwn yn ystyried uwchraddio'r rhwystrau culhau'r ffordd ar Ffordd Tŷ Draw i gyfleusterau croesi dyrchafedig (clustogau) sy'n cadw cyflymderau cerbydau yn isel, ond sy'n galluogi'r traffig i lifo y ddwy ffordd.

**Pam na ellir defnyddio'r arian i lenwi ceudyllau?** Mae'r Cyngor yn derbyn arian ar wahân i fynd i'r afael â materion cynnal a chadw.

**Beth am draffig yn teithio o amgylch yr ardal a'r rhwydwaith?** Bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i Ganol y Ddinas a'r Ddinas gyfan yn y dyfodol, yn enwedig o ran hyrwyddo mesurau teithio llesol a chynaliadwy. Yn rhan o'n gwaith asesu, byddwn yn edrych ar ba fesurau rheoli traffig eraill y dylem eu cynnwys, megis mwy o gyfleusterau i gerddwyr a beicwyr, blaenoriaeth i fysiau a Choridorau Clyfar i reoli llif traffig. Mae mwy o wybodaeth am ein cynlluniau presennol ar wefan y Cyngor ac ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd. Ewch i: www.caerdydd.gov.uk neu Papur Gwyn Trafnidiaeth (caerdydd.gov.uk)